

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro, Canolfan  
Ddeintyddol IDH Heol y  
Sblot**

15 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .....	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol IDH Heol y Sblot, 21 Heol y Sblot, Caerdydd, CF24 2BU, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 15 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>3</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer tîm deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol IDH Heol y Sblot yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal y Sblot, Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Canolfan Ddeintyddol IDH Heol y Sblot yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion preifat a chleifion y GIG.

Mae tîm staff y practis ar hyn o bryd yn cynnwys un deintydd cyswllt, dwy nyrs ddeintyddol (un dan hyfforddiant), rheolwr practis ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol.

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Canolfan Ddeintyddol IDH Heol y Sblot yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn gyfeillgar a chroesawgar ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu gofal a'u triniaeth.

Cynigiodd tri chlaf a fynychodd y ddeintyddfa ar ddiwrnod ein hymweliad sylwadau cadarnhaol ar lafar am eu profiadau yn y ganolfan ddeintyddol.

Roedd y ganolfan ddeintyddol yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau gan gleifion fel ffordd o wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Ar y cyfan, gwelsom fod y ganolfan ddeintyddol yn cael ei rhedeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau iechyd a gofal perthnasol a chanllawiau proffesiynol.

Gwnaethom nodi bod angen gwella cynnwys cofnodion cleifion. Gwnaethom hefyd gynghori'r tîm deintyddol ar sut i wella agweddau ar y weithdrefn ddadebru mewn argyfwng.

Prynwyd Canolfan Ddeintyddol IDH Heol y Sblot oddi wrth y perchennog blaenorol ym mis Tachwedd 2014. Caiff y gwasanaeth ei redeg gan reolwr practis gyda chymorth rheolwr ardal, cyfarwyddwr clinigol a thîm bychan o staff ymroddedig.

Roedd gan y practis ystod lawn o bolisïau corfforaethol, gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r uwch reolwyr a'r tîm deintyddol o'r angen i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n flynyddol, o leiaf. Gwnaethom gynghori hefyd y dylai polisïau adlewyrchu canllawiau Cymru gyfan a'r rhai lleol. Roedd hyn am fod nifer fach o'r rhai a welwyd yn cyfeirio at gorff rheoleiddio sy'n perthyn i rannau eraill o'r DU, yn hytrach na Chymru.

Roedd adeilad y ganolfan ddeintyddol yn cynnig amgylchedd glân i gleifion dderbyn gofal a thriniaeth.

**Anfonwyd llythyr sicrwydd ar unwaith at y darparwr/perchennog ar 17 Mehefin 2015, parthed ein canfyddiadau arolygu a oedd yn gysylltiedig â defnyddio bandiau triniaeth y GIG yn anghywir.**

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn gyfeillgar a chroesawgar ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu gofal a'u triniaeth.**

**Cynigiodd tri chlaf a fynychodd y ddeintyddfa ar ddiwrnod ein hymweliad sylwadau cadarnhaol ar lafar am eu profiadau yn y ganolfan ddeintyddol.**

**Roedd y ganolfan ddeintyddol yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau gan cleifion fel ffordd o wella'r gwasanaethau a ddarperir.**

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion i'r ganolfan ddeintyddol cyn ein harolygiad a chwblhawyd 17 ohonynt.

Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth yr oeddent wedi ei derbyn yn y ganolfan ddeintyddol a bod y staff wedi estyn croeso iddynt. Dywedodd naw claf wrthym eu bod wedi profi oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad, a dywedodd un claf fod yn rhaid iddo aros gryn dipyn ar adegau cyn cael apwyntiad. Gwnaethom arsylwi ar ddau neu dri chlaf yn disgwyl i weld yr unig deintydd a oedd yn gweithio yn y ganolfan ddeintyddol, a hynny sawl gwaith yn ystod ein harolygiad.

Roedd y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan gleifion yn cynnwys y canlynol:

*'Cyfeillgar iawn a pharod i sgwrsio. Mae'r tîm yn gwenu drwy'r amser'*

*'Tipyn gwell erbyn hyn'*

Cawsom sgysiau gyda thri chlaf a oedd yn ymweld â'r practis ar ddiwrnod ein harolygiad (roedd un ohonynt yn glaf newydd) a chynigion nhw ragor o sylwadau cadarnhaol am y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn a'u gallu i drefnu apwyntiadau ar adegau a oedd yn cyd-fynd yn dda â'u bywydau cartref a gwaith.

Pan ofynnwyd i'r cleifion am wybodaeth am driniaeth dywedodd y mwyafrif o gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth yr oedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl.

Nododd wyth claf a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Serch hynny, roedd



y rhif argyfwng/tu allan i oriau wedi'i arddangos ar safle'r ganolfan ddeintyddol ac roedd y peiriant ateb hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am y gwasanaethau y tu allan i oriau. Nid oedd taflen wybodaeth am y practis ar gael i gleifion ar adeg ein harolygiad am ei bod wrthi'n cael ei chyhoeddi, fel y dywedodd rheolwr y practis.

Roedd y ganolfan ddeintyddol yn cynnig apwyntiadau rheolaidd a brys, ac ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 5.00pm. Roedd y gwasanaeth yn cau am awr bob dydd rhwng 1.00pm a 2.00pm.

Dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y cyfan ar wasanaethau'r ganolfan ddeintyddol ac nid oedd ganddynt unrhyw gwynion na phryderon. Fodd bynnag, dywedodd 11 o'r 17 claf a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am eu gofal neu driniaeth, pe bai'r angen yn codi. Gwelsom fod proses/gweithdrefn gwynion y GIG a deintyddiaeth breifat wedi'i harddangos yn yr ystafell aros; roedd y wybodaeth yn gyson â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG a rheoliadau deintyddiaeth breifat. Fodd bynnag, gan fod y wybodaeth wedi'i harddangos mewn print mân ac yn uchel ar y wal cyn cyrraedd y dderbynfa, gwnaethom gynghori bod y poster yn cael ei gynhyrchu mewn print mwy o faint a'i osod mewn lle mwy amlwg yn ystafell aros y cleifion. Cytunodd rheolwr y practis i fynd i'r afael â'r mater hwn, er mwyn cynorthwyo cleifion i ddeall eu hawliau o ran delio â chwynion.

Dywedwyd wrthym fod y ganolfan ddeintyddol wedi cyflwyno blwch awgrymiadau, yn ddiweddar iawn, yn ystafell aros y cleifion er mwyn galluogi pobl i roi sylwadau am y gwasanaethau a ddarparwyd, a hynny'n ddiennw os yw'n well ganddynt. Hefyd, dywedodd rheolwr y practis wrthym y bydd cynnwys y blwch yn cael wirio bob mis; bydd gwybodaeth a gasglwyd yn cael ei thrafod wedyn yn y cyfarfod staff nesaf mewn ymgais i wella'r gwasanaeth, cyn belled ag y bo modd. Daeth i'r amlwg yn ystod sgwrs ag uwch reolwr bod cleifion yn gallu cynnig eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol drwy gyfrwng gwefan gyfathrebu cleifion IDH.

Roedd manylion y ganolfan ddeintyddol ar gael ar wefan IDH Heol y Sblot. Fodd bynnag, canfuom fod cyfeiriad at ddarparu 'hypnosis' fel rhan o driniaeth ddeintyddol y cleifion. Gwnaethom drafod hyn gyda rheolwr y practis ac uwch reolwyr IDH yn ystod yr arolygiad, a dywedwyd wrthym fod y wybodaeth honno wedi parhau ar y wefan yn sgil problem dechnegol ac nad oedd neb o blith aelodau'r tîm deintyddol wedi'i hyfforddi i ddefnyddio hypnosis. Cawsom sicrwydd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu ymaith fel mater o frys am y gallai fod yn gamarweiniol i gleifion ac yn groes i egwyddorion hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Serch hynny, wrth wirio'r wefan ddeuddydd ar ôl ein harolygiad roedd y wybodaeth dal yno.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i ddarparwr/perchennog y ddeintyddfa ddisgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod gwefan y ganolfan ddeintyddol yn cydymffurfio ag egwyddorion hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Gwelsom fod cyfres o bosteri wedi'i harddangos yn ystafell aros y cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriadau at brisiau deintyddol preifat a'r GIG, safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, enwau a swyddogaethau aelodau o'r tîm deintyddol ac ymwybyddiaeth o ganser y geg.

## ***Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal***

**Ar y cyfan, gwelsom fod y ganolfan ddeintyddol yn cael ei rhedeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau iechyd a gofal perthnasol, a chanllawiau proffesiynol.**

**Gwnaethom nodi bod angen gwella cynnwys cofnodion cleifion. Gwnaethom hefyd gynghori'r tîm deintyddol ar sut i wella agweddau ar y weithdrefn ddadebru mewn argyfwng.**

### Offer radiograffig

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant perthnasol i staff, gwaith cynnal a chadw ar gyfarpar a phroffion ar offer.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r tîm deintyddol fod ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerid yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd, fesul claf. Wrth archwilio sampl fach o belydrau-X y cleifion dangoswyd nad oedd ansawdd/gradd y pelydrau-X bob amser yn fanwl gywir. Golygai hyn nad oedd pelydr-X o ansawdd da gan y deintydd i'w gynorthwyo i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth.

Gwelsom ganlyniadau archwiliad pelydr-X ôl-weithredol a ddangosodd bod gan y ganolfan ddeintyddol system ar waith i ystyried/adolygu ansawdd lluniau pelydrau-X a wnaed (yn ôl-weithredol). Bwriad yr ymarfer hwn oedd nodi lle'r oedd angen gwelliannau. Wrth drafod â'r tîm deintyddol ac uwch-reolwyr datgelwyd yr ystyrid cyflwyno system pelydr-X a fydd yn gwella ansawdd cyffredinol y pelydrau-X a gymerir yn y ganolfan ddeintyddol.

### Cadw cyffuriau a chyfarpar argyfwng

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y ganolfan ddeintyddol i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dynodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau o'r fath a sut i gyflawni adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael pe bai argyfwng i glaf (llewyg) yn y practis.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau rheolaidd ar waith i sicrhau bod cyffuriau a/neu gyfarpar yn cael eu newid cyn eu dyddiad dod i ben. Fodd bynnag, canfuom nad oedd gan aelodau o'r tîm deintyddol fynediad hawdd at siartiau llif unigol i'w tywys wrth iddynt ddefnyddio cyffuriau argyfwng penodol. Gallai hyn arwain at gamddealltwriaeth ar adegau pan fydd angen ymateb i gleifion ar frys. Yn ogystal, roedd y cyfarpar argyfwng a'r cyffuriau mewn bag a seliwyd, a allai achosi oedi mewn argyfwng. Cynghorwyd y tîm deintyddol, felly, i storio eitemau argyfwng yn un o'r ystafelloedd triniaeth, heb

eu selio. Gwnaed y newid hwn yn ystod ein harolygiad. Gwnaethom hefyd argymell y dylai'r tîm lungopïo'r tudalennau perthnasol (ynghylch y gwahanol fathau o argyfyngau cleifion a allai ddigwydd) o'u llawlyfr hyfforddiant a'u rhoi yn y pecyn argyfwng ynghyd â'r cyffur perthnasol i helpu staff i'w defnyddio. Cytunodd rheolwr y practis i fynd i'r afael â'r mater hwn cyn gynted â phosibl.

Gwnaethom gadarnhau fod dau aelod o'r tîm deintyddol wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio cymorth cyntaf.

### Dadheintio

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwnaethom siarad ag aelod o'r tîm deintyddol, ac roeddem yn fodlon bod prosesau addas ar waith a oedd wedi'u hen sefydlu er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio ac i amddiffyn y cleifion. Gwelsom fod digon o offer ar gael at ddibenion dadheintio. Roedd sinc golchi dwylo neilltuedig ar gael, ac roedd eitemau untro (megis cyfarpar diogelu llygaid, menig a ffedogau) ar gael i helpu'r tîm deintyddol â'u gweithdrefnau sefydledig ar gyfer rheoli heintiau.

Roedd yr ystafell ddadheintio yn lân ac yn hylan ac roedd ffan echdynnu yn ei le i helpu aer i lifo o ochr yr ystafell lle gosodwyd offer glân a sterileiddiwyd mewn pecynnau wedi'u selio, i ochr yr ystafell lle roedd offer budr yn cael eu prosesu. Roedd hyn yn lleihau'r posibilrwydd o ddadheintio offer glân.

Roedd offer budr a glân yn cael eu cludo i'r ystafell ddadheintio dan sêl mewn bocsys a farciwyd yn eglur. Gwelsom hefyd fod gan y tîm deintyddol broses ar waith lle'r oedd offer a ddefnyddiwyd yn cael eu trochi mewn toddiad glanhau addas (mewn bocsys offer budr) yn syth ar ôl eu defnyddio yn yr ystafell driniaeth. Roedd hyn er mwyn cynnal amgylchedd llaith yr ystyrir ei fod yn ddefnyddiol i'w gwneud hi'n haws i ddadheintio'n hwyrach.

Gwelsom nad oedd y bin gwastraff peryglus yn gweithio fel y dylai. Yn benodol, roedd yn rhaid i unigolion agor y caead â llaw am nad oedd pedal troed yno mwyach. Tynnwyd sylw'r uwch reolwyr at hyn, a gwnaethant fynegi eu parodrwydd i roi cyfarpar newydd yn ei le yn brydlon.

Gwelsom fod offer a sterileiddiwyd wedi cael eu rhoi mewn bagiau wedi'u selio a oedd yn cynnwys dyddiad sterileiddio a dyddiad dod i ben, fel modd o amddiffyn cleifion.

Gwelsom fod y ganolfan ddeintyddol wedi cwblhau dau archwiliad atal a rheoli heintiau (a adwaenir, fel arall, fel archwiliad dadheintio) gan ddefnyddio offeryn archwilio cydnabyddedig y Gymdeithas Atal Heintiau, a hynny ym mis Rhagfyr 2014 ac yn fwy diweddar ym mis Mehefin 2015. Roedd hyn yn fodd o

hunanasesu'r broses ddadheintio ac i nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid oedd y tîm wedi cwblhau archwiliad a oedd yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<sup>4</sup> Gwnaethom drafod hyn â rheolwr practis ac uwch reolwyr a gwnaethant gytuno i ymgymryd ag archwiliad o'r fath yn y dyfodol agos iawn.

Datgelodd ein trafodaethau gyda'r tîm deintyddol fod pwyslais ar hyrwyddo gwasanaeth diogel, o ansawdd, drwy gynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol mewn perthynas â defnyddio offer deintyddol. Wrth archwilio llyfrau cofnodi profion a gwiriadau offer, cadarnhawyd bod gan staff system sefydledig ar waith i sicrhau bod y cyfan yn parhau'n effeithiol ac mewn cyflwr da, er mwyn ategu diogelwch y cleifion.

### Gwaredu gwastraff

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff o'r fath yn cael ei storio'n ddiogel mewn cyfleuster cloadwy wrth aros iddo gael ei gasglu. Gwelsom hefyd fod y contractau presennol ar waith ar gyfer casglu gwastraff nad yw'n beryglus o'r safle.

Daeth i'r amlwg yn ystod sgwrs â'r tîm deintyddol fod yn rhaid cludo'r gwastraff peryglus dan sêl trwy'r ddeintyddfa ar y diwrnod casglu. Roedd hyn am nad oedd mynedfa gefn i'r safle. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i ni nad oedd gofal a thriniaeth cleifion yn cael ei gyfaddawdu o ganlyniad i'r trefniant hwn.

### Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd y ddwy ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn hylan. Fodd bynnag, roedd rhai o'r cypyrddau a'r droriau yn ystafell driniaeth un wedi'u gosod yn wael, ac roeddent yn anodd i'w glanhau. Roedd yr arwyneb gwaith yn yr un ystafell driniaeth wedi'i ddifrodi/farcio hefyd. Cynghorwyd y tîm deintyddol a'r uwch reolwyr i ystyried cael eitemau newydd yn lle'r rhai a nodir uchod.

---

<sup>4</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn darparu canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bump o gofnodion cleifion presennol. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion ysgrifenedig ac electronig a welsom o safon resymol.

Fodd bynnag, gwelwyd bod un o'r pum cofnod yn cynnwys tystiolaeth ddiweddar o nodi band triniaeth anghywir y GIG. Roedd hyn hefyd wedi arwain at gyflwyno gwybodaeth anghywir i'r Bwrdd Iechyd yn rhan o drefniadau monitro contract wythnosol y ganolfan ddeintyddol. Yn ystod sgwrs ag uwch reolwr, cytunwyd i ail wneud y cais a nodir uchod. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau dilynol â'r tîm deintyddol, gwelwyd bod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â chais triniaeth cywir y GIG.

***Arweiniodd y canfyddiad hwn at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith AGIC a oedd yn golygu bod gan y darparwr deintyddol/perchennog saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC ynglŷn ag unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu a drefnwyd, er mwyn rhoi sylw i'r materion a ddisgrifiwyd. Yn dilyn hynny, derbyniodd AGIC ymateb a gofynnwyd am fwy o wybodaeth er mwyn egluro'r camau a gymerwyd. Ers hynny, mae'r darparwr deintyddol wedi rhoi ymateb pellach i AGIC, ac mae'r cynnwys yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.***

Fodd bynnag, gwnaethom nodi hefyd nad oedd rhai o'r cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Roedd hyn fel a ganlyn:

- Nid oedd cofnod o gyngor ar roi'r gorau i ysmegu mewn achosion pan oedd cleifion wedi datgelu eu bod yn ysmegu tybaco.
- Nid oedd hanes meddygol yn cael ei gofnodi'n llawn/ei ddiweddarau bob tro, ac nid oedd cydlofnod y deintydd wedi'i nodi bob tro ychwaith (sy'n dangos bod y deintydd wedi darllen a nodi cynnwys yr hanes meddygol)
- Nid oedd tri o'r pump o gofnodion yn cynnwys tystiolaeth o gynllun triniaeth i'r claf
- Nid oedd digon o dystiolaeth ynglŷn â sut y cafwyd cydsyniad y cleifion i driniaeth yn unrhyw un o'r cofnodion a welwyd
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth fanwl o atgyfeiriadau i weithwyr iechyd proffesiynol eraill nac o broses fewnol er mwyn sicrhau bod cleifion wedi cael cynnig apwyntiad i gael eu gweld am asesiad/triniaeth nad yw ar gael yn y ganolfan ddeintyddol

- Nid oedd cofnod o roi esboniadau i gleifion mewn perthynas â sgrinio ar gyfer canser y geg.
- Nid oedd cofnodion cleifion yn rhoi tystiolaeth bod y ganolfan ddeintyddol yn glynu wrth y canllawiau ail-alw
- Nid oedd dau o'r pump o gofnodion a archwiliwyd yn rhoi tystiolaeth bod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-X ar adegau priodol er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r darparwr deintyddol/perchennog ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion pob claf yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau a'r Safonau Iechyd a Gofal.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Prynwyd Canolfan Ddeintyddol IDH Heol y Sblot oddi wrth y perchennog blaenorol ym mis Tachwedd 2014. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg ar hyn o bryd gan reolwr practis gyda chymorth rheolwr ardal, cyfarwyddwr clinigol, a thîm bychan o staff ymroddedig.**

Roedd y practis wedi sefydlu ystod eang o bolisïau corfforaethol, gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd priodol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r uwch reolwyr a'r tîm deintyddol o'r angen i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn. Gwnaethom hysbysu hefyd y dylai'r polisïau adlewyrchu canllawiau Cymru gyfan a chanllawiau lleol. Roedd hyn am fod nifer fach o'r polisïau a welwyd yn cyfeirio ar gorff rheoleiddiol a oedd yn berthnasol i rannau o'r Deyrnas Unedig yn hytrach na Chymru.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd gyda chymorth rheolwr ardal, cyfarwyddwr clinigol a thîm bychan o staff ymroddedig. Roedd rheolwr y practis yn gweithio yn y ganolfan ddeintyddol bum niwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar ddigwydd iddi fod yn rheolwr ar bractis deintyddol arall yn ardal Caerdydd, a byddai hynny'n golygu mai am ddau neu dri diwrnod yr wythnos yn unig y byddai hi'n bresennol yng Nghanolfan Ddeintyddol Heol Splott. Roedd un deintydd cysylltiol yn gweithio yn y ganolfan ddeintyddol ar adeg ein harolygiad (a oedd yn rhoi pwyslais yn bennaf ar y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol y GIG).

Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis a'r uwch reolwyr, gwelwyd bod deintydd cysylltiol arall i fod i ymuno â'r ganolfan ddeintyddol, a fyddai'n cynorthwyo'r gwaith o gwblhau'r lefel o waith sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion contract deintyddol presennol y GIG. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai nyrs ddeintyddol ychwanegol yn cael ei chyflogi adeg hynny. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad roedd maint y gwaith a neilltuwyd ar gyfer y ganolfan ddeintyddol yn fwy na'r hyn y byddai disgwyl i un deintydd ei gwblhau fel arfer. Wrth i ni arsylwi ar ddiwrnod yr arolygiad, ac yn ystod sgwrsiau â'r tîm deintyddol, cafwyd cadarnhad bod maint y gwaith ar hyn o bryd yn rhoi cryn bwysau ar y deintydd presennol bob dydd.

O ganlyniad, hysbyswyd y darparwr deintyddol/perchennog o'r angen i sicrhau bod goruchwyliaeth a chynghor digonol, parhaus a hygyrch iawn yn cael ei ddarparu ar gyfer rheoli'r ganolfan ddeintyddol bob dydd, yn enwedig gan fod y tîm deintyddol yn parhau i ddatblygu yn dilyn prynu'r gwasanaeth ym mis Tachwedd 2014. Trafodwyd y mater gyda rheolwr y practis a'r uwch reolwyr yn ystod sesiwn adborth ein harolygiad ar ddiwrnod yr arolygiad.



## ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol ar y darparwr/perchennog i gadarnhau'r trefniadau presennol a'r trefniadau at y dyfodol a fydd yn sicrhau bod gan y ganolfan ddeintyddol lywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol i gyd-fynd â gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.***

### Materion staff

At ei gilydd, canfuom fod gan y tîm deintyddol y sgiliau gofynnol i fodloni anghenion gofal a thriniaeth cleifion. Roedd hyn yn rhannol am inni weld fod gan y ganolfan ddeintyddol raglen sefydlu gorfforaethol ar waith i sicrhau bod unrhyw aelod newydd o'r tîm deintyddol yn gallu dod yn gyfarwydd â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig mewn perthynas â gwasanaethau cleifion.

Gwnaethom sgwrsio ag aelodau o'r tîm deintyddol a dywedwyd wrthym eu bod yn mynychu cyfarfodydd misol i'r staff lle'r oedd ganddynt gyfle i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/perthnasol i'r tîm deintyddol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hyn drwy edrych ar nodiadau'r cyfarfodydd staff a gedwir yn y ganolfan ddeintyddol, a oedd yn amlygu'r pynciau a'r materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm deintyddol.

Gwelwyd wrth archwilio tystysgrifau hyfforddi dau oedd yn gweithio yn y ganolfan ddeintyddol eu bod wedi cyflawni'r hyfforddiant priodol yn ystod 2014 a 2015, a oedd yn cynnwys sesiynau am adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR), trefniadau amddiffyn plant ac oedolion (diogelu) a diheintio/dadheintio offer deintyddol.

Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis cadarnhawyd bod pob aelod o'r tîm deintyddol wedi cael eu harfarniad blynyddol cyntaf yn ddiweddar, ac roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pa un a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant oedd yn ofynnol yn y dyfodol.

Gwelsom fod gan y ganolfan ddeintyddol dystiolaeth gyfredol o frechiadau a lefelau imiwnedd Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff. Hefyd, cadarnhaodd sgwrs â rheolwr y practis fod trefniadau addas ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel bod brechiadau, cymorth a chyngor ar gael gan yr adran iechyd galwedigaethol pan fo angen hynny. Golyga hyn fod y ganolfan ddeintyddol wedi cymryd camau priodol tuag at ddiogelu staff a chleifion rhag firsau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

### Rheolaeth Glinigol/Trefniadau Sicrhau Ansawdd

Diogelwyd hawliau cleifion, iechyd deintyddol a lles pennaf gan ystod lawn o bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol.

Gwelsom fod unigolion sy'n gweithio yn y ganolfan ddeintyddol wedi llofnodi pob dogfen bolisi i ddynodi bod y cynnwys wedi'i ddarllen a'i ddeall. Serch hynny, nid oedd nifer fawr o'r polisïau wedi cael eu hadolygu yn y 12 mis diwethaf, yn unol ag arfer da, tra bod eraill yn cyfeirio at arferion gwaith a oedd yn berthnasol i rannau eraill o'r DU yn hytrach na Chymru.

Gwelsom fod polisi/gweithdrefn chwythu'r chwiban ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y polisi'n cyfeirio'n benodol at drefniadau lleol, nac yn cynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd neu gyrff perthnasol eraill. Golygai hyn nad oedd mynediad hawdd gan unigolion at enwau a rhifau cyswllt asiantaethau allanol, pe byddent yn gweld angen i fynegi pryderon, y tu hwnt i'r tîm deintyddol, am ddulliau cyflenwi'r gwasanaeth.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r darparwr/perchennog ddangos sut y bydd yn sicrhau bod gan y tîm deintyddol fynediad at bolisïau a gweithdrefnau cyfredol sy'n seiliedig ar ganllawiau Cymru gyfan a threfniadau lleol. Mae hyn er mwyn cynorthwyo'r tîm deintyddol i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion.***

Darparwyd copiâu inni o asesiadau risg a gwblhawyd yn ddiweddar mewn perthynas â diogelwch tân a'r trefniadau iechyd a diogelwch ar y safle. Yn y ddau achos nodwyd y camau a oedd yn ofynnol a'r sgôr blaenoriaeth ar gyfer pob maes a oedd yn peri pryder. Yn ogystal, roedd y ganolfan ddeintyddol wedi cwblhau archwiliad o gofnodion cleifion a arweiniodd at gynllun gweithredu a oedd yn cael ei fonitro gan uwch reolwyr ar hyn o bryd.

Cawsom fod system sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi cwynion ffurfiol ac ar lafar.

Datgelodd trafodaethau gyda rheolwr y practis ac uwch reolwyr bod cyfleoedd rheolaidd i'r deintydd cyswllt a oedd yn gweithio yn y ganolfan ddeintyddol i gymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol/cyfarfodydd gyda deintyddion eraill. Roedd hyn yn fodd i ddarparu cefnogaeth i gymheiriaid ac i annog dysgu parhaus.

Roedd tystysgrif AGIC wedi'i harddangos yn amlwg yn ystafell driniaeth un mewn perthynas â'r ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis, fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat.

O archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, gwelwyd bod systemau a phrosesau addas wedi'u sefydlu i sicrhau bod offer yn cael eu harchwilio'n brydlon ac yn unol â'r gofynion gorfodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

### **Roedd adeilad y practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn gofal a thriniaeth ynddo.**

Mae Gofal Deintyddol IDH Heol y Sblot wedi'i leoli mewn adeilad masnachol a addaswyd, yn 21 Heol y Sblot, Caerdydd, CF24 2BU, ar lawr daear yr adeilad.

Nid oedd unrhyw lefydd parcio dynodedig ar gael ar y safle; fodd bynnag, roedd llefydd parcio am ddim ar gael yn yr ardal gyfagos.

Roedd gan y ganolfan ddeintyddol ystafell aros i'r cleifion a derbynfa. Roedd dwy ystafell driniaeth ar y safle hefyd. Ystyriwyd bod yr ystafell aros o faint digonol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth a oedd yn yr adeilad. Roedd hefyd ystafell ddadheintio benodedig, cegin a swyddfa fach at ddefnydd rheolwr y practis.

Roedd yr adeilad yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymorth symud. Mae hyn am fod mynedfeydd y ganolfan ddeintyddol a'r ystafelloedd triniaeth yn ddigon llydan i roi rhwydd hynt i gyfarpar o'r fath, ac nid oedd grisiau ar y safle.

Darparwyd tŷ bach i'r ddau ryw ar gyfer cleifion ac aelodau'r tîm deintyddol, i'r chwith o'r dderbynfa. Roedd hwn i'w weld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo. Fodd bynnag, ni fyddai defnyddwyr cadair olwyn yn gallu defnyddio'r cyfleuster hwn yn sgil ei fynedfa gul. Deëllir wrth sgwrsio â'r staff bod cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn derbyn gwybodaeth am dai bach a addaswyd mewn adeilad cymunedol gerllaw'r ganolfan ddeintyddol.

Datgelodd sgwrs ar ddiwrnod yr arolygiad gyda rheolwr y practis ac uwch reolwyr bod gwaith ailaddurno wedi bod yn digwydd y tu mewn i'r ganolfan ddeintyddol yn y misoedd diwethaf. Mynegwyd sylwadau cadarnhaol am y gwelliannau a wnaed mewn sgwrs â dau glaf.

Cedwid cofnodion cleifion yn ddiogel ac roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn ffres ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod y practis wedi'i awyru'n ddigonol a bod goleuadau addas yno.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintydd cyswllt wedi'u harddangos yn glir ar flaen yr adeilad, ynghyd â rhif ffôn y ganolfan ddeintyddol.

Gwelsom fod dogfennau dilys wedi'i harddangos yn y ganolfan ddeintyddol mewn perthynas ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut a phryd y bydd Canolfan Ddeintyddol IDH Heol y Sblot yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

### Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol IDH Splott Road

Dyddiad yr Arolygiad: 15 Mehefin 2015

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y Claf</b>			
Tudalen 7	Mae'n ofynnol i'r darparwr deintyddol/perchennog y ddeintyddfa ddisgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod gwefan y ganolfan ddeintyddol yn cydymffurfio ag egwyddorion hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2012).	Bydd y darparwr yn sicrhau bod y wefan yn cael ei chywiro i ddangos y triniaethau gwirioneddol sy'n cael eu cynnal yn y practis. Mae dau newid wedi cael eu gwneud eisoes i adlewyrchu'r triniaethau sydd ar gael. Mae un newid arall i'w gwblhau, a throsglwyddwyd hwn i dîm cymorth gwefannau'r cwmni er mwyn iddynt roi camau gweithredu ar waith.	Tîm Cydymffurfio Rheolwr Datblygu'r Ardal	10 Medi 2015
	<b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>			
Tudalen 12	<b><i>Roedd un o'r pum cofnod cleifion a welwyd yn cynnwys tystiolaeth ddiweddar</i></b>	<b><i>Mae'r mater hwn eisoes wedi arwain at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith gan AGIC (17 Mehefin 2015) a oedd yn gofyn i'r</i></b>	Gwnaeth y darparwr ymateb a darparu cynllun	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p><i>o nodi band anghywir ar gyfer triniaeth y GIG. Roedd hyn hefyd wedi arwain at gyflwyno gwybodaeth anghywir i'r bwrdd iechyd yn rhan o drefniadau wythnosol y ganolfan ddeintyddol ar gyfer monitro contractau. Yn benodol, roedd y cais wedi cael ei gyflwyno yn anghywir am ei fod yn cyfeirio at driniaeth Band 2 yn hytrach na Band 1 (fel y dangosir gan y math o ofal a thriniaeth a ddarparwyd i'r claf dan sylw).</i></p>	<p><i>darparwr deintyddol/perchennog y ddeintyddfa ymateb i AGIC o fewn saith diwrnod, gan ddisgrifio unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd neu a gymerwyd.</i></p>	<p>gweithredu.</p>	
Tudalen 13	<p>Mae'n rhaid i'r darparwr deintyddol/perchennog y ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cofnodion pob claf yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau proffesiynol (Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol), canllawiau, a Safon Iechyd a Gofal 3.5.</p>	<p>Mae'r ddau ddeintydd wedi mynychu cwrs cynefino <i>mydentist</i> dan arweiniad cyfarwyddwyr clinigol, ac mae hwn yn cynnwys cadw cofnodion ar gardiau.</p> <p>Trefnwyd bod un deintydd yn mynychu ail sesiwn hyfforddi ym mis Medi.</p> <p>Maen nhw wedi derbyn sesiynau hyfforddi ar sail un i un gyda rheolwr y practis a hyfforddwr systemau R4 y cwmni ynghylch prosesu ceisiadau ar y cyfrifiadur.</p> <p>Mae ceisiadau yn cael eu hanfon bob dydd, ac mae'r broses o'u gwrthod ar waith bob dydd</p>	<p>Rheolwr Cymorth Clinigol Rheolwr y Practis Rheolwr Datblygu'r Ardal</p>	<p>Adroddiad Chwarterol Rhagfyr 2015</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>hefyd.</p> <p>Mae archwiliadau o gofnodion cardiau yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd, a byddwn yn cynnal gwiriadau bob chwarter â'r Rheolwr Cymorth Clinigol er mwyn adolygu cywirdeb nes ein bod yn fodlon y byddwn yn gallu dychwelyd at archwiliadau bob chwe mis.</p>		
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
Tudalen 15	<p>Mae'n ofynnol i'r darparwr deintyddol/perchennog y ddeintyddfa egluro'r trefniadau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer sicrhau bod gan y ganolfan ddeintyddol systemau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn cefnogi cyflenwad cynaliadwy o ofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.</p> <p>Safon Iechyd a Gofal 3.3 (yn ogystal â chyfeiriad at dudalen 8, 'Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd')</p>	<p>Gwnaeth deintydd ddechrau ar swydd lawn amser yn y practis ym mis Awst, sy'n golygu bod y gwaith clinigol bellach yn cael ei rannu gan y ddau ddeintydd.</p> <p>Mae'r rheolwr a oedd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad bellach yn absennol oherwydd salwch. Yn y cyfamser, bydd y practis yn cael ei oruchwylio dros dro gan reolwr profiadol practis arall, a fydd yn ymweld dau ddiwrnod yr wythnos ac a fydd ar gael ar ei ffôn symudol yn ystod y diwrnodau pan na fydd hi yn y practis. Bydd aelod o staff yn cael ei benodi fel yr unigolyn</p>	<p>Rheolwr y Practis Rheolwr Datblygu'r Ardal Y Brif Swyddfa</p>	<p>Adolygu 5 Tachwedd 2015</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>cyfrifol ar gyfer y practis yn ystod absenoldeb y rheolwr.</p> <p>Yn ogystal â hyn, bydd cymorth ar gael i'r practis oddi wrth y brif swyddfa a Rheolwr Datblygu'r Ardal.</p> <p>Bydd y Rheolwr Cymorth Clinigol yn cynnal ymweliadau rheolaidd â'r clinigyddion, a bydd y rhain yn cael eu cofnodi.</p> <p>Cynhelir adolygiad chwarterol o'r cynnydd tuag at gwblhau'r cynllun gwella yn gynnar ym mis Tachwedd.</p>		
Tudalen 16	<p>Mae'n ofynnol i'r darparwr deintyddol/perchennog y ddeintyddfa ddangos sut y bydd yn sicrhau bod gan y tîm deintyddol fynediad at bolisiau a gweithdrefnau cyfredol sy'n seiliedig ar ganllawiau Cymru gyfan a threfniadau lleol. Bwriad hyn yw helpu'r tîm deintyddol i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion.</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae'r darparwr yn adolygu polisiau'r cwmni, a bydd yn sicrhau y bydd fersiwn berthnasol o'r polisiau ar gael i bractisau yng Nghymru ac y byddant yn adlewyrchu canllawiau Cymru gyfan a chanllawiau lleol.</p> <p>Mae gan y busnes ddull hunanasesu sy'n cael ei gwblhau bob blwyddyn, a bydd hwn yn gymorth i'r rheolwr wrth sicrhau bod yr holl bolisiau a'r</p>	<p>Rheolwr y Practis Rheolwr Datblygu'r Ardal Y Brif Swyddfa/Tîm Cydymffurfio</p>	<p>30 Tachwedd 2015</p>



Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	(Safonau Iechyd a Gofal 2015 – amrywiaeth)	<p>gweithdrefnau yn cael eu cadw'n gyfredol. Bydd y darparwr hefyd yn cefnogi practisau i gwblhau'r system sicrwydd ansawdd (QAS) flynyddol.</p> <p>Bydd gwiriadau cydymffurfedd bob chwarter gan Reolwr Datblygu'r Ardal er mwyn sicrhau bod y safonau yn cael eu cynnal.</p>		
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella mewn perthynas â'r thema uchod yn ystod yr arolygiad hwn.			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .....Gareth Waters.....

**Teitl:** .....Rheolwr Datblygu'r Ardal.....

**Dyddiad:** .....7 Medi 2015 .....